**Oedfa Ilston 2025**

**'I'r Drindod heb wahân, rhown fawl ar gân i gyd:**

**Credo Nicea a Chymru 2025'**

Yn anaml iawn bydd Cristnogion – hyd yn oed y Cristnogion mwyaf ymroddgar a brwd – yn meddwl rhyw lawer am Athrawiaeth y Drindod, bod y Duw Cristnogol (eich Duw chi a minnau) yn ôl y fformiwla, yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân. I'r rhan fwyaf ohonom mae unrhyw sôn am ddiwinyddiaeth yn ddigon i godi braw arnom; yr ŷm naill ai yn credu ei fod yn rhy anodd neu yn rhy gymhleth neu yn rhy ddryslyd, neu yntau ei fod yn amherthnasol i'n bywydau bob dydd. Onid peth syml yw Cristnogaeth yn y bôn? Oni allai plentyn ei ddeall? Dyna chi'r Tad nefol sydd wedi'n creu ni ac sydd wedi'n caru ni; dyna Iesu Grist, ei unig anedig Fab y buom yn dathlu ei ddyfodiad eto'r Nadolig hwn, wedi dod i'r byd er mwyn mynegi'r cariad hwnnw a'i fynegi hyd angau; a dyna'r Ysbryd Glân, ysbryd y Pentecost, sydd wedi gwneud y Crist atgyfodedig (sydd bellach yng nghwmni'r Tad yn y nefoedd) yn realiti profiadol yn ein bywydau ni. Wel, ie! Dyna, yn ei hanfod *yw* Athrawiaeth y Drindod. Mae'n hollol resymegol, ac yn wir, does dim angen cwrs prifysgol ar neb i fedru ei ddeall. Dyw e ddim byd i'w wneud â mathemateg – sut yn y byd y gall Un fod yn Dri, a Thri fod yn Un; a dyw hi ddim byd i'w wneud â rhyw athroniaeth gymhleth ychwaith. Mae'n ymwneud, yn hytrach, â phrofiad yr eglwys ar hyd y canrifoedd: mai Un Duw sydd, a ddaeth atom yn gyflawn ac yn derfynol yn Iesu Grist ei Fab; bod y Mab hwnnw yn fwy na phroffwyd a dyn da – ie, mae e' *yn* broffwyd ac yn ddyn da ond mae'n fwy na hynny hefyd; pan y dowch wyneb yn wyneb â Iesu dŷch chi'n dod wyneb yn wyneb â Duw: 'Myfi a'r Tad *un* ydym; yr hwn a'm gwelodd i a welodd y Tad'; a thrwy'r Ysbryd daw'r cwbl yn realiti cyfoes ym mhrofiad yr eglwys o genhedlaeth i genhedlaeth ac ar hyd y canrifoedd. Nid rhywbeth i ymddrysu uwch ei ben neu ddadlau yn ei gylch mohono ond rhywbeth i orfoleddu ynddo, yn destun mawl ac addoliad. Yng ngeiriau Eos Gwynfa:

I’r Drindod heb wahân/ Rhown fawl ar gân i gyd;
Boed Haleliwia ym mhob man/ Drwy bedwar ban y byd.

Wedi dweud hynny, cymerodd hi amser i’r eglwys ffurfioli ei chredo a dyfeisio’r hyn yr ydym ni’n ei alw yn ‘Athrawiaeth y Drindod’. Does dim athrawiaeth y drindod fel y cyfryw yn y Testament Newydd er bod deunydd crai yr athrawiaeth i’w weld yno yn blaen, braidd ar bob tudalen. Yn nyddiau ei gnawd, roedd hi’n gwbl amlwg i’r disgyblion (yn ôl y cofnod yn yr efengylau cyfolwg, Matthew, Marc a Luc), fod y berthynas rhwng Iesu a’i Dad nefol yn un hynod, yn wir yn unigryw. Nid yn unig roedd yn ufudd i’r Tad ymhob dim, ond roedd yn gwneud y math o bethau mai dim ond Duw ei hun a fyddai’n ei wneud. Byddai’n gweddïo ar y Tad yn ddi-baid, ond ni chlywodd neb mohono yn gweddïo am faddeuant pechodau. Nid gofyn am faddeuant a fyddai Iesu ond ei gynnig i bobl eraill, a dim ond Duw oedd â’r hawl i wneud hynny. Tro ar ôl tro ar ôl tro mae’n dweud wrth yr anghenus, y tlawd, y rhai a feichiwyd gan eu hamgylchiadau: ‘Maddeuwyd i ti dy bechodau’. Does dim rhyfedd fod y Phariseaid a’r ysgrifenyddion yn ei gyhuddo o gablu. Ac oni gyffesodd Thomas maes o law: ‘Fy Arglwydd a’m Duw’ (Ioan 20:28). Dim ond un Duw oedd, sef y creawdwr, y Tad nefol, ond rhywsut dyma ddyn, y rabbi crwydrol o Nasareth, mab Joseff y saer, yn ymagweddu megis Duw. ‘Yn wir’, meddai’r canwriad ar ddiwedd Efengyl Matthew gan fynegi ffydd yr eglwys ar hyd y canrifoedd: ‘Onid Mab Duw oedd hwn?’ (Mt. 27:58).

Ond beth am yr Ysbryd Glân? Nid yr efengylau cyfolwg fel y cyfryw ond Efengyl Ioan sy’n darlunio’r berthynas rhwng Iesu, ei Dad nefol, a’r Ysbryd hwnnw a fu oddi y dechrau ar waith oddi mewn i’r greadigaeth. Wrth gyfarwyddo’i ddisgyblion yn yr oruwchystafell ar ddechrau’r Wythnos Fawr, mae Iesu’r Mab wrth sôn am ei berthynas â’r Tad sanctaidd, yn cyfeirio hefyd at swyddogaeth a gweinidogaeth yr Ysbryd:

> Y mae gennyf lawer eto i’w ddweud wrthych, ond ni allwch ddal y baich ar hyn o bryd. Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe’ch arwain chwi

> yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. (Ioan 16:12-15)

Nid dyna yw Athrawiaeth y Drindod, ond dyna'r deunydd crai y lluniwyd athrawiaeth y drindod ohono. Yr un Duw, sydd yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân.

Ond beth ddigwyddodd i Iesu ar ddiwedd yr Wythnos Fawr? Cafodd ei groeshoelio, ond

> Ni allodd angau du ddal Iesu'n gaeth
> ddim hwy na'r trydydd dydd – yn rhydd y daeth.

Dychwelodd at ei ddisgyblion, ffarweliodd â nhw a rhoddodd iddynt y Comisiwn Mawr:

> Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân ... Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. (Mat. 28: 18-20)

A'r peth nesaf sy'n digwydd yw tywalltiad yr Ysbryd ar Ddydd y Pentecost, pregeth aruthrol Pedr, sef y bregeth Gristnogol gyntaf, a Iesu yw'r testun:

> Gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi gwneud yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.

Ac yna yr alwad i edifarhau:

> Pan glywsant hyn, fe'u dwysbigwyd yn eu calon, a dywedasant wrth Pedr a'r apostolion eraill, 'Beth a wnawn ni, gyfeillion?' ... 'Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd'. (Actau 2: 36-8)

Fel pobl yr HD roedd Cristnogion yr Eglwys Fore, yn Iddewon ac yn genedl-ddynion, yn credu mai un Duw oedd, y creawdwr a'r achubydd, ond bellach roedd hi fel petai'r un Duw hwnnw wedi'i fynegi ei hun yn derfynol ac yn gyflawn yn yr Arglwydd Iesu: 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu' (Mt. 3:17), a bellach roedd yr un Duw hwnnw a ymgnawdolwyd

yng Nghrist yn realiti parhaol yn eu profiad trwy bresenoldeb yr Ysbryd. O'r deunydd hwn, ac ar sail y profiad hwn, y lluniwyd yr athrawiaeth, ac o droi at lythyrau Paul a'r apostolion eraill fe welwch y broses hon yn ymffurfio: Un Duw, sydd bellach yn Dad ac yn Fab ac yn Ysbryd Glân, ac nid rhyw bŵer amhersonol mo'r Ysbryd ond yn Berson yn ei hawl ac yn ei hanfod ei hun.

Y Parchg Simeon Baker, mewn pwyllgor ychydig fisoedd yn ôl, a awgrymodd y dylem drafod Credo Nicea yn Oedfa Ilston eleni. Petai pobl yn gwrando mewn arnom heno, byddent yn synnu a rhyfeddu bod Bedyddwyr Cymru (o bawb!) yn trafod dogfen a luniwyd mil saith gant o flynyddoedd yn ôl mewn dinas yn Nhwrci dros y culdir o Istanbul, gan gyngor o esgobion a alwyd ynghyd gan yr Ymerawdwr Cystennin. Y flwyddyn oedd 325. Erbyn hynny roedd y ffydd Gristnogol wedi ymledu o Jerwsalem ar draws yr hen fyd mor bell ag Ynys Prydain. Roedd hyn cyn i'r Saeson ymgyrraedd, cyn bod yr iaith Gymraeg wedi ymffurfio – Brythoneg oedd iaith y brodorion bryd hynny – a chyn i Dewi Sant a'i gyfoeswyr, Illtud a Theilo, Deiniol, Beuno a'r lleill, ganrif a hanner yn ddiweddarach droi cenedl newydd-anedig y Cymry at grefydd Iesu Grist.

Pam felly galw'r esgobion ynghyd? Tua 13 blynedd yn gynharach roedd Cystennin wedi cael gweledigaeth o'r groes ynghyd â'r geiriau *in hoc signo vinces* ('yn yr arwydd hwn y bydd di'n gorchfygu') a thrwyddi dyfarnodd, o hyn allan, mai Cristnogaeth fyddai crefydd swyddogol ymerodraeth Rhufain. Er mwyn unoliaeth yr ymerodraeth roedd rhaid cael unoliaeth oddi mewn i'r eglwys, ond ers cenhedlaeth a mwy roedd y Cristnogion yn dadlau â'i gilydd ac yn gofyn 'sut un yw ein Duw ni?', 'beth yn union yw natur y berthynas rhwng Duw y Tad a Iesu'r Mab?'

I dorri stori'n fyr, ac i hepgor y manylion technegol, roedd un blaid, yr Ariaid (ar ôl dyn o'r enw Arius, offeiriad yn Alexandria) yn dadlau mai un Duw ydoedd a bod Crist, er yn Fab Duw, eto heb fod o'r un hanfod ag Ef. Duw oedd

Duw ac roedd Gair Duw, y Logos tragwyddol, a fyddai yng nghyflawnder yr amser yn ei uniaethu ei hun â Iesu o Nasareth, mewn gwirionedd yn greadur, y mwyaf o'r creaduriaid ond eto yn greadur. Y term a ddefnyddiwyd oedd *homoiousios*, yn debyg i Dduw o ran sylwedd ond eto yn wahanol iddo. A dyma'r blaid arall, yn cael ei arwain gan ŵr o'r enw Athanasiws, ysgrifennydd esgob Alexandia, yn dweud 'Na! Na! Na!.' Nid un tebyg i'r Tad ond yr un un â'r Tad o ran ei hanfod; nid dim ond yn deillio oddi wrtho ond yr un un ag Ef o ran ei sylwedd; nid *homoiousios* – tebyg iddo – ond *homoousios*, – yr un un ag Ef, yn rhannu'r un duwdod. Mae'r Gair tragwyddol *yn* dragwyddol, mae wedi bod erioed, ac nid fel creadur yr uniaethodd ei hun â Iesu o Nasareth ond gwnaeth hynny yn ei gyflawn dduwdod. Onid oedd Ioan ei hun wedi dweud yn y prolog i'w efengyl:

> Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw ***oedd*** y Gair. Hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd. (Ioan 1:1-3)
>
> Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. (BCN)
>
> A dyna a gytunwyd arno yng Nghyngor Nicea:
>
>> Credwn yn un Duw, y Tad hollgyfoethog,
>>
>> Gwneuthurwr pob peth gweledig ac anweledig;
>>
>> Ac yn un Arglwydd Iesu Grist, Mab Duw,
>>
>> Unig-anedig o'r Tad, hynny yw, allan o hanfod y Tad,
>>
>> Duw o Dduw, llewych o lewych, gwir Dduw o wir Dduw,
>>
>> Wedi ei genhedlu, nid ei wneuthur,
>>
>> O'r un hanfod – *homoousios* – â'r Tad,
>>
>> Trwy yr hwn y gwnaed pob peth ...

Ac yna mae'r credo yn symud ymlaen i sôn am ymgnawdoliad Crist, yr iachawdwriaeth a gafwyd trwy ei aberth, yr atgyfodiad, yr esgyniad a'i ail-ddyfodiad er mwyn barnu'r byw a'r meirw ac un llinell yn unig am yr Ysbryd Glân.

Nid dyna oedd diwedd y dadlau oherwydd er bod y credo wedi'i dderbyn yn swyddogol, parhaodd Ariaeth yn boblogaidd ac am y genhedlaeth nesaf bu rhaid i Athaniasiws ffoi. O'r cyfnod hwnnw y tarddodd yr ymadrodd *Athanasius contra mundum* ('Athanasiws yn erbyn y byd'). Fodd bynnag, erbyn canol y ganrif daethpwyd i sylweddoli os mai Arius oedd yn gywir a chreadur oedd y Gair, wel, dyn yn unig oedd Iesu ac nid yn Fab Duw, ac os dyn yn unig oedd Iesu, dyna ddiwedd ar ein hiachawdwriaeth ni oherwydd dim ond Duw – nid rhywun *tebyg* i Dduw ond Duw ei hun – yn unig a allai ein hachub. A pan alwyd y cyngor eglwysig nesaf yng Nghaergystennin yn 381, cadarnhawyd awdurdod credo Nicea ac ychwanegwyd paragraff ato yn sôn am yr Ysbryd Glân. Os oedd y Mab o'r un sylwedd â'r Tad, rhaid bod yr Ysbryd hefyd yn rhannu'r un duwdod:

> Credwn ... yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd a'r Bywiawdwr,
>
> Sy'n deillio o'r Tad.
>
> Yr hwn gyda'r Tad a'r Mab a gyd-addolir.

A thrwy hynny sefydlogwyd Athrawiaeth y Drindod a'i gwneud yn normadol ar gyfer yr eglwys byth oddi ar hynny.

Ond beth yw hynny i ni fel Bedyddwyr? Yn wahanol i'r Anglicaniaid a'r Catholigion a'r Eglwys Uniongred, nid ydym yn adrodd y credo wrth addoli, tra mai'r unig gyffes sy'n angenrheidiol i ni yw'r gynharaf oll: 'Iesu yw'r Arglwydd'. Ond mae pob un ohonom wedi'n bedyddio i enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, ac o'i ddadbacio, mae'r ymadrodd syml 'Iesu yw'r Arglwydd' – sy'n datgan duwdod Crist yn ogystal â'i ddyndod – yn arwain yn rhesymegol ac

yn anorfod at Athrawiaeth y Drindod. Nid sect hereticaidd ydym ni fel Undeb Bedyddwyr Cymru, ond yn rhan fach ond nid dibwys o'r corff oesol hwnnw sy'n Gorff Crist ar y ddaear, yr Un Eglwys Lân Gatholig ac Apostolaidd. O ddyddiau John Myles ymlaen, trwy Gyffes 1689 hyd at y Datganiad o Egwyddor:

> Ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, Duw a amlygwyd yn y cnawd, yw'n hunig awdurdod llwyr a hollol ym mhob mater sy'n ymwneud â ffydd ac ymarfer, fel y'i mynegwyd yn yr Ysgrythurau Sanctaidd,

trindodwyr ydym ni, a thrindodwyr – gobeithio – y byddwn ni. Dyna pam y gallwn y flwyddyn hon, fel ein cyd-Gristnogion ym mhedwar ban y byd, ddiolch am Gredo Nicea.